



---

# **ADRODDIADAU ARHOLWYR TGAU**

---

**DRAMA  
TGAU**

**HAF 2019**

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC:  
<https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=cy>

### **Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein**

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

### **Adroddiad Ystadegol Blynyddol**

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn cynnwys canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

<b>Uned</b>	<b>Tudalen</b>
Uned 1: Dyfeisio Theatr	1
Uned 2: Perfformio Theatr	3
Uned 3: Dehongli Theatr	5

## **DRAMA**

## **TGAU**

**Haf 2019**

### **UNED 1: DYFEISIO THEATR**

#### **Sylwadau Cyffredinol**

Ar ôl cwblhau ail flwyddyn y fanyleb newydd, hoffem ddiolch i'r holl ganolfannau am eu hymrwymiad parhaus i sicrhau bod yr holl ymgeiswyr wedi cael y cyfle i gyflawni eu potensial. Mae'n amlwg o safon y gwaith ar draws yr ystod bod canolfannau'n cynnig amrywiaeth o brofiadau i ymgeiswyr, sy'n cyfoethogi eu dealltwriaeth o ddrama a theatr.

Mae'r uned hon yn werth 40% o'r cymhwyster ac ynddi mae gofyn i ymgeiswyr gyflwyno tair elfen – portffolio o dystiolaeth ategol, perfformiad ymarferol/technegol, a gwerthusiad o'r perfformiad terfynol. Nododd y cymedrolwyr bod canolfannau'n tueddu i ddewis yr arddulliau/ymarferwyr mwy traddodiadol e.e. Brecht, Theatr mewn Addysg gydag ychydig iawn yn arbrofi'n llwyddiannus gyda chwmnïau ymarferwyr/theatr cyfoes fel Splendid, Emma Rice a Gecko. Fel y nodwyd y llynedd, roedd y gwaith gorau yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferol fanwl o'r gofynion o ran sgiliau eu genre/ymarferwr dewisedig. Dangosodd yr ymgeiswyr hyn ddealltwriaeth soffistigedig a chafwyd dystiolaeth yn y ffordd y cafodd y technegau a ddewiswyd eu hymgorffori yn y perfformiad terfynol. Yn anffodus, methodd nifer bach o ganolfannau ag ystyried y cyngor a roddwyd y llynedd i osgoi defnyddio dull 'dewis a dethol' ac roedd hyn wedi cael effaith ar ansawdd y darn terfynol a'r marciau. Roedd pob ysgogiad yn apelio'n gyfartal at yr ystod lawn o ymgeiswyr gyda rhai dehongliadau creadigol a dychmygus iawn. Roedd yr ymgeiswyr gorau yn gallu datblygu'r syniadau cychwynnol er mwyn cael negeseuon aeddfed a oedd yn procio'r meddwl. Ar y cyfan roedd canolfannau wedi cadw at y fanyleb amser a chafodd hyn effaith sylweddol ar ansawdd y perfformiadau terfynol.

#### **Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol**

Er bod y mwyafrif o ganolfannau wedi cadw at y canllawiau a ddarparwyd i gwblhau'r dystiolaeth ategol h.y. terfyn geiriau, atodiadau, mae rhai yn parhau i gymhlethu'r gwaith ac yn cyflwyno ffolderi celf mawr sy'n llawn deunydd amherthnasol nad ydynt yn bodloni'r meini prawf. Datblygodd y gwaith gorau y portffolio dan y tri phennawd penodedig gyda llawer yn dewis ac yn defnyddio'r atodiadau mewn ffordd berthnasol ac ystyrlon, gan ddilyn fformat syml, gydag ymgeiswyr yn cadw at y terfyn geiriau a gofynion pob adran. Cynghorir canolfannau i gyfeirio at y deunydd enghreifftiol ar y wefan ddiogel i gael canllawiau pellach.

Dewisodd lleiafrif o ganolfannau ddefnyddio cyflwyniad clyweledol – roedd y rhain o safon dda iawn gyda phob ymgeisydd ar draws yr ystod marciau yn cyfleu eu syniadau'n glir a chryno.

Unwaith eto roedd canolfannau wedi cadw at y cyngor a roddwyd yn adroddiad y llynedd ynglŷn â'r gwerthusiad, gyda mwyafrif yr ymgeiswyr yn canolbwyntio ar eu perfformiad terfynol unigol ac yn cadw at y tri maes clir a nodwyd yn y fanyleb. Dangosodd ymgeiswyr sgiliau gwerthuso a dadansoddi cadarn, gan gyfeiriodi adegau penodol, ond mae'r sgil hwn yn un heriol i lawer o ymgeiswyr ac mae'n faes y gallai canolfannau ganolbwyntio ar ei ddatblygu.

Rhaid cyflwyno'r A4 (dwy ochr o nodiadau pwynt bwled) gyda'r gwaith a chaiff canolfannau eu hatgoffa bod yn RHAID i'r rhain fod yn gryno.

## **Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

- Sicrhewch fod ymgeiswyr yn cyflwyno eu hunain yn glir ar ddechrau'r perfformiad
- Sicrhewch fod y camera wedi'i osod mor agos â phosibl i'r llwyfan
- Dylid osgoi tywyllwch llwyr a newidiadau cymhleth i'r llwyfan lle bynnag y bo modd
- Sicrhewch ddefnydd effeithiol o ofod e.e. diffinio ardal llwyfan mewn manau mawr
- Dylid osgoi atodiadau diangen gyda'r portffolio o dystiolaeth
- Awgrymir anodi gwaith eich ymgeiswyr i ddangos i'r cymedrolwr lle a pham y dyfarnwyd marciau i gynorthwyo'r broses gymedroli.

## DRAMA

## TGAU

Haf 2019

### UNED 2: PERFFORMIO THEATR

#### Sylwadau Cyffredinol

Ar y cyfan roedd arholwyr yn gweld amrywiaeth dda o ddarnau gydag ymgeiswyr yn llwyddo i gyrraedd yr ystod lawn o farciau. Roedd arholwyr wedi adrodd ar ddehongliadau sensitif a chynnil, a rhai perfformiadau mwy cyffrous ac arbrofol. Anogir canolfannau i ddewis testunau mwy arloesol sy'n cyd-fynd â sgiliau perfformio'r ymgeiswyr unigol. Unwaith eto mae hyn yn atgyfnerthu'r broses o ddewis darn addas o theatr ar gyfer grwpiau penodol o ymgeiswyr gan mai dyma'r allwedd i lwyddo yn yr uned hon. Gwelwyd aeddfedrwydd, mewnwelediad a soffistigeiddrwydd mewn rhai perfformiadau, ac roedden nhw wedi cydio yn nychymyg y gynulleidfa drwyddi draw. Eto, llongyfarchwn y bobl ifanc hyn am eu paratoadau a'u doniau ardderchog.

#### Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

Yn gyffredinol, nododd yr arholwyr fod y safon a gyflawnwyd yn yr elfen ddylunio yn llawer gwannach o gymharu â'r ymgeiswyr actio. Er bod enghreifftiau o ragoriaeth, nododd yr arholwyr fod rhai ymgeiswyr dylunio wedi dangos ychydig neu ddim dealltwriaeth o'r sgil a ddewiswyd ganddynt. Hoffem atgoffa canolfannau nad oes angen i ymgeiswyr dylunio wneud Viva gyda'r arholwr sy'n ymweld. Er mwyn codi safonau yn y maes hwn mae angen i ymgeiswyr technegol:

- weithio'n agos gyda'r grŵp actio drwy gydol y broses ymarfer.
- dilyn y canllawiau yn y fanyleb ynglŷn â'r gofynion sylfaenol
- dangos dealltwriaeth o sut mae eu sgil o ddewis yn gwella'r detholiadau a ddewiswyd

Ar y cyfan roedd canolfannau wedi defnyddio amrywiaeth o ddarnau diddorol a oedd yn herio'r myfyrwyr i gynhyrchu perfformiadau ysbrydoledig ac aeddfed. Roedd canolfannau'n greadigol yn eu gwaith o addasu sgriptiau, ac roedd hynny'n caniatáu iddyn nhw gyflawni gofynion y fanyleb.

#### Bwriadau Artistig

Roedd y dull o ymdrin â bwriadau artistig yn tueddu i fod yn anghyson, roedd llawer yn glir ac yn gosod amcanion ysgogol a pherfformio/dylunio cadarn. Fodd bynnag, roedd rhai yn gryno iawn ac ychydig iawn o gysylltiad oedd â'r perfformiad neu'r dyluniad. Hoffem atgoffa canolfannau bod bwriadau artistig wedi'u cynnwys ym marc terfynol yr arholwyr, a dylai canolfannau weithio gyda'r ymgeiswyr i sicrhau eu bod yn gyraeddadwy yn y perfformiad terfynol. Ar gyfer ymgeiswyr dylunio, mae bwriadau artistig clir a manwl yn bwysig, gan nad oes ganddynt bortffolio na Viva bellach.

Nododd arholwyr hefyd fod pob canolfan wedi ceisio gwella'r perfformiad terfynol drwy ddefnyddio amrywiaeth o elfennau technegol syml megis cerddoriaeth i ddechrau a gorffen darn / goleuo / gwisg a set syml.

Caiff canolfannau eu hatgoffa NA chaniateir iddyn nhw berfformio'r darnau o'r dramâu o fewn yr un cyfnod amser â thestun dewisol Uned 3. Gweler tudalen 11 o'r fanyleb am eglurhad pellach.

Noder y canllawiau arfer da a rennir ar bob cwrs DPP h.y. Y gofyniad sylfaenol o ddysgu llinellau yn drylwyr, gan osgoi'r ddibyniaeth drom ar 'ysgogiadau' sy'n effeithio ar allu ymgeiswyr i gynnal y perfformiad; ymarfer gyda phropiau cyn yr arholiad; ymarfer mewn gwisg – yn enwedig gwisg cyfnod – sydd yn newid deinameg cymeriad ac yn gofyn am lawer o baratoi ac addasu corfforol; ymarfer yn y gofod arholiad cyn diwrnod yr arholiad.

Ar y cyfan, mae'r mwyafrif o ganolfannau'n rhoi profiadau cadarnhaol i ymgeiswyr mewn amgylchedd cefnogol, gan ganiatáu iddyn nhw fwynhau eu perfformiad terfynol o'r cwrs TGAU Drama.

### **Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

- Rhaid i ganolfannau sicrhau bod yr holl waith papur yn barod i'r arholwr ar ddiwrnod yr arholiad terfynol (edrychwch ar wefan CBAC am ganllawiau)
- Mae'n rhaid recordio perfformiadau ac anfon copi i'r bwrdd o fewn 7 diwrnod
- Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno'u hunain ar ddechrau pob perfformiad, gan nodi enw, rôl a rhif yr ymgeisydd.
- Mae angen anfon Ffurflenni Bwriadau Artistig i'r arholwr sy'n ymweld cyn y perfformiad (bydd eich arholwr yn cysylltu â chi ynglŷn â hyn)
- Caiff canolfannau eu hatgoffa bod y testun a ddewisir yn Uned 3 yn effeithio ar y dewis o destunau ar gyfer perfformiad Uned 2. (gweler y fanyleb am fanylion pellach)

## DRAMA

## TGAU

Haf 2019

### UNED 3: DEHONGLI THEATR

#### Sylwadau Cyffredinol

Roedd y cwestiynau yn y papur eleni yn gytbwys ac yn canolbwyntio ar feysydd actio a thechnegol. Yn gyffredinol mae'r arholwyr yn nodi bod dealltwriaeth yr ymgeiswyr o actio yn fwy o lawer na'u dealltwriaeth o sut roedd dylunio wedi gweithio o fewn eu testun gosod. Y prif broblem oedd bod ymgeiswyr heb ddarllen y cwestiynau/cyfeirebau yn gywir ac wedi methu â chanolbwyntio ar y gofynion penodedig. Arweiniodd hyn ar lawer o atebion yn cynnwys gwybodaeth a oedd yn ddiangen neu nad oedd yn berthnasol.

#### Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

##### Adran A

- (i) Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda yn gyffredinol gydag ymgeiswyr yn rhoi amrywiaeth o ymadroddion lleisiol addas a oedd yn dangos dealltwriaeth o'r cymeriad a chyddestun y linell yn yr olygfa.
- (ii) Er bod y mwyafrif o ymgeiswyr wedi nodi dwy effaith sain berthnasol, methodd rhai â datblygu eu hatebion ac esbonio sut roedd y rhain yn gwella'r olygfa benodedig.
- (iii) Er yr ymddengys bod hwn yn gwestiwn syml a hygyrch, disgrifiad arwynebol o'r cymeriad a gafwyd gan lawer o ymgeiswyr wedi rhoi disgrifiad arwynebol o'r cymeriad gan fethu ag ymdrin â thair agwedd wahanol ar y cymeriad yn yr olygfa benodedig. Ond roedd y mwyafrif o ymgeiswyr wedi rhoi amrywiaeth o argymhellion ymarferol ar gyfer symud, ystum a mynegiant wyneb.
- (iv) Y cwestiwn hwn oedd yn dangos yr ymateb gwannaf gyda'r mwyafrif wedi methu â chanolbwyntio ar y gyfeireb yn y cwestiwn. Er bod ymgeiswyr yn gallu nodi ardal actio addas, methodd llawer ag addasu eu harddull a set o ddewis i hwyluso hyn. Problemau allweddol:
  - ychydig neu ddim dealltwriaeth o arddull cynhyrchu ar gyfer eu dyluniad set
  - ychydig neu ddim dealltwriaeth o set ar eu llwyfan o ddewis e.e. lliain llawr, ardal uwch ben yr ardal actio, cefnlen ac ati.
  - ychydig neu ddim dealltwriaeth o sut mae lliw o fewn y set yn cyfleu ystyr
  - diffyg creadigrwydd a gwreiddioldeb wrth ddylunio set ar gyfer eu golygfa o ddewis
  - er y derbynir tafluniadau/gobos/fideo fel rhan o ddyluniad set, canolbwyntiodd rhai ymgeiswyr ar giwiau goleuo yn gyffredinol, nad oeddent yn rhan o'r gyfeireb
  - gormod o ganolbwyntio ar feysydd nad oeddent wedi'u nodi yn y gyfeireb e.e. gwisgoedd, effeithiau sain a lleoliad manwl cymeriad.
- (v) Atebwyd hwn yn dda gydag ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth dda o gymhelliant cymeriad ac yn trafod llais, symudiad a rhyngweithio yn fanwl. Roedd yr atebion gorau yn gweithio drwy'r olygfa gyfan, gan gyfeirio at adegau allweddol i gyfleu eu syniadau ac i sicrhau cydbwysedd ar draws y tri maes.

Eto, nid oedd rhai ymgeiswyr wedi darllen y cwestiwn yn iawn ac wedi canolbwyntio ar un maes e.e. llais neu disgrifiad manwl o gymeriad.

## **Adran B**

Unwaith eto, rhoddwyd cyfle i'r ymgeiswyr weld amrywiaeth ddiddorol o berfformiadau a oedd yn eu cyffroi a'u hysbrydoli, a chafodd hyn effaith sylweddol ar ansawdd yr ymatebion o'r holl ystod gallu. Roedd yr ymgeiswyr yn amlwg wedi mwynhau'r cynyrchiadau hyn ac roedd eu trafodaethau ar set / rhyngweithio yn dangos dealltwriaeth glir o fwriadau'r Dramodydd a'r Cyfarwyddwr. Roedden nhw'n gallu ymateb yn effeithiol fel aelodau o'r gynulleidfa ac yn gallu gwneud cyfeiriadau perthnasol at adegau allweddol yn eu golygfeydd o ddewis.

Problemau allweddol yn y cwestiwn hwn:

- dim cyfeiriadau at y ddwy olygfa
- disgrifio yn hytrach na gwerthuso
- peidio â rhoi ymateb personol

## **Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

Dylid atgoffa ymgeiswyr, nid yn unig i ddarllen y cwestiwn, ond i ddarllen y pwyntiau bwled adeiladol sy'n cyd-fynd â'r cwestiwn, lle y bo'n berthnasol. Eleni, roedd llawer o ymgeiswyr wedi trafod agweddau na soniwyd amdanynt yn y cwestiwn fel rhan o'u hatebion. Er nad yw ymgeiswyr yn cael eu cosbi am hyn, ni ddyfernir marciau iddynt am drafod agweddau nad yw'r cwestiwn yn gofyn amdanynt nhw.





CBAC  
245 Rhodfa'r Gorllewin  
Caerdydd CF5 2YX  
Rhif Ffôn 029 2026 5000  
Ffacs 029 2057 5994  
E-bost: [arholiadau@cbac.co.uk](mailto:arholiadau@cbac.co.uk)  
gwefan: [www.cbac.co.uk](http://www.cbac.co.uk)